



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD Oedolion Ebrill 2016

Asesu a Rhoi Diagnosis i Oedolion ag Anhwylder ar
y Sbectwm Awtistig yng Nghymru

Asesu a Rhoi Diagnosis i Oedolion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig yng Nghymru

Argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad

1. Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig yn 2015 i ddarparu cyngor i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am wasanaethau diagnostig ASD ar gyfer plant ac oedolion. Byddai argymhellion y grŵp yn cael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer diweddariad y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (CGS ASD) a oedd yn cael ei ddatblygu ar yr adeg hon. Fel mater o flaenoriaeth, ystyriodd y grŵp bryderon y mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u codi mewn perthynas ag amseroedd aros am ddiagnosis ASD ar gyfer plant, a gofynnwyd iddo ddarparu cyngor arbenigol ar ddiagnosis a chymorth cyn ac ar ôl diagnosis ar gyfer plant ac oedolion.
2. Ym mis Mai 2015 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyllid newydd i gefnogi Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc; mae £2m o gyllid cylchol wedi cael ei ddyrannu'n benodol ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol gan gynnwys ADHD ac ASD. I osgoi dyblygu, mae aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynrychioli gwasanaethau plant wedi trosglwyddo eu haelodaeth i grŵp gweithredu niwroddatblygiadol Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc. Mae'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad Un.
3. Diwygiwyd cylch gorchwyl y grŵp gorchwyl a gorffen o 19 Tachwedd 2015 i ganolbwyntio ar gyngor ac argymhellion ar gyfer diagnosis a chymorth ar ôl diagnosis i oedolion yn unig. Gwnaeth y ddau grŵp gadw rhai aelodau a rennir gan gynnwys cynrychiolwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp oedolion hefyd wedi cyfethol aelodau'r Grŵp Cynghori Arbenigol ASD Oedolion; mae'r olaf o'r rhain wedi cael ei gynnal fel rhan o gynllun cyflawni interim ar gyfer ASD Llywodraeth Cymru. Mae aelodau'r grŵp yn Atodiad Dau.
4. Cylch gorchwyl y grŵp gorchwyl a gorffen diagnostig oedolion diwygiedig yw darparu cyngor ac argymhellion mewn perthynas â:
 - Lleihau amseroedd aros diagnostig ar gyfer oedolion.
 - Sefydlu fframwaith cyson ar gyfer diagnosis sy'n cydymffurfio â chanllawiau NICE¹ ar gyfer on the atgyfeirio, asesu a rhoi diagnosis i oedolion ag ASD.
 - Atgyfnerthu cyflawniadau'r Rhwydwaith Cwnsela Cyn ac Ar Ôl Diagnosis i Oedolion.

¹ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

- Nodi a rhannu ymarfer da mewn asesu a gwasanaethau cymorth cyn ac ar ôl diagnosis.
- Sicrhau bod cysylltiadau rhwng ffrwd waith niwroddatblygiadol Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cael eu sefydlu a'u cynnal i sicrhau synergedd o ran dulliau o ymdrin ag ymarfer diagnostig, cymorth ar ôl diagnosis a phrosesau pontio.

Cyd-destun Strategol

5. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Strategol ASD yn 2008 (CGS ASD), ac mae'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'n cynnwys ystyried anghenion oedolion ag awtistiaeth sydd angen mynediad at gymorth a gwasanaethau diagnostig. Yn dilyn hyn, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i oedolion i gytuno ar ddull safonol o ymdrin ag asesu a'i hwyluso, i ddatblygu a darparu hyfforddiant i glinigwyr ac i alluogi rhannu ymarfer gorau. Gan weithredu ar argymhellion y grŵp i Oedolion, yn 2011 sefydlwyd Rhwydwaith Cwnsela Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig Cyn / Ôl Diagnosis i Oedolion Cymru Gyfan. Cynhaliodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y Rhwydwaith rhwng 2011- 2014 ac yna Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn 2014-2015. Yn ystod y cyfnod pum mlynedd hwn, darparodd Llywodraeth Cymru £1,041 miliwn i'r byrddau iechyd i fwrw ymlaen â'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a nodwyd y mae'r Rhwydwaith Diagnostig i Oedolion yn eu cydlynu.
6. Ers 2011 mae aelodau'r Rhwydwaith Diagnostig i Oedolion wedi cyfarfod bob mis i ddatblygu a darparu dull cyson o ymdrin â chymorth diagnostig ac ôl diagnostig ASD i Oedolion. Cyflawnwyd cynnydd, datblygwyd llwybr asesu safonol a'i hyrwyddo ar draws byrddau iechyd a chyflwynwyd hyfforddiant i glinigwyr. Fodd bynnag mae aelodau wedi darganfod bod gwelliannau'n cael eu hyrwyddo gan glinigwyr sy'n ymwneud â'r rhwydwaith yn unig, oherwydd bu diffyg cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth ar draws byrddau iechyd.
7. Ym mis Mai 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyflawni Interim ar gyfer y CGS ASD, a oedd yn cael ei ddiweddarau. Roedd y gweithredoedd yn cynnwys ymgymryd ag ymarfer pennu cwmpas i ddeall buddiannau gwasanaethau awtistiaeth integredig a oedd bellach ar gael mewn rhannau eraill o'r DU, a fyddai'n cynnwys asesu sut y gellir diwallu anghenion oedolion fel rhan o'r dull hwn o weithredu.
8. Mae'r CGS ASD wedi cael ei ddiweddarau â chymorth grŵp cynghori rhanddeiliaid ASD, sydd wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â canfyddiadau allweddol gwerthusiad deilliannau annibynnol y CGS ASD cyntaf. Mae'r grŵp hefyd wedi ystyried y deilliannau y mae'r Cynllun Cyflawni Interim ASD a gyhoeddwyd yn 2015 wedi'u cyflawni. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau yn dilyn dull pob oedran o weithredu, roedd y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016 yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth, sef codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant, asesu diagnosis a chymorth, mynd i'r afael ag anghenion

cymorth heb eu diwallu, ac addysg a chyflogaeth. Mae'r holl feysydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o wasanaethau ar gyfer oedolion ag awtistiaeth.

9. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD wedi ystyried etifeddiaeth y Rhwydwaith Diagnostig i Oedolion ac ystyriwyd cyfeiriad polisi'r CGS ASD yn y dyfodol. Mae aelodau hefyd wedi ystyried deddfwriaeth a chyfeiriad polisi ehangach Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar wella lles, â phwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal, derbyn cymorth priodol (dim mwy, dim llai) a lleihau amrywiad amhriodol trwy ddefnyddio ymarferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r meysydd allweddol a ystyriwyd yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014), yr Agenda Gofal Iechyd Darbodus a Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru.
10. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen hefyd wedi ystyried y gwelliannau sy'n cael eu datblygu fel rhan o ffrwd waith niwroddatblygiadol rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc. Mae cysylltiadau agos wedi cael eu sefydlu oherwydd bod aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen yn gysylltiedig â'r Grŵp Gweithredu Niwroddatblygiadol a sefydlwyd ym mis Medi 2015. Mae'r grŵp yn gweithio tuag at ddatblygu llwybr diagnostig safonol i blant i'w roi ar waith ar draws Cymru sy'n cydymffurfio â gofynion NICE.

Y Sefyllfa Bresennol

Adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth presennol i oedolion

11. Roedd y Rhwydwaith ASD i Oedolion yn llwyddiannus wrth ddatblygu dull asesu diagnostig safonol a oedd yn cydymffurfio â gofynion NICE. Mae hyn wedi paratoi'r ffordd ar gyfer cysondeb o ran asesu diagnostig ar draws byrddau iechyd wrth alluogi rhywfaint o hyblygrwydd lleol yn y ffordd mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu.
12. I gefnogi gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD ymgwymerodd y Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar gyfer ASD ag adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth presennol. Er bod yr adroddiad - *Assessment and Diagnosis of Autistic Spectrum in Wales* yn dwyn sylw at y cynnydd a wnaethpwyd, roedd yn dangos yn amlwg bod angen dull strategol mwy cadarn o weithredu i roi diagnosis a chymorth ASD ar sylfaen fwy cynaliadwy.
13. Darganfuwyd er bod y rhan fwyaf o asesiadau diagnostig yn bodloni'r meini prawf y cytunwyd arnynt yn ardaloedd y rhan fwyaf o fyrddau iechyd, roedd rhywfaint o amrywiad yn parhau ar draws byrddau iechyd ac weithiau o fewn byrddau iechyd, sydd wedi arwain at barhad yn y darlun anghyson ar draws byrddau iechyd.
14. Hefyd gwnaeth yr adolygiad ddarganfod amrywiad sylweddol o ran mynediad at wasanaethau diagnostig ar draws Cymru, er nad oedd

casglu data'n ddibynadwy, yn gyffredinol darganfuwyd dau fis oedd yr isafswm amser aros a 18 mis oedd yr uchafswm amser aros.

15. Roedd canfyddiadau allweddol yr adolygiad yn cydnabod bod ymrwymiad ac ymroddiad clinigwyr y Rhwydwaith Diagnostig i Oedolion, eu gwaith yw'r catalydd ar gyfer datblygiadau ar lefel y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, daeth y rhwydwaith ar draws llawer o rwystrau i gyflawni'r gwelliannau roeddent yn ceisio'u hymgorffori mewn byrddau iechyd. Adlewyrchir y rhain yn narganfyddiadau allweddol yr adolygiad sef:

- Nid yw data mewn perthynas â'r amser mae unigolion yn aros am asesiad diagnostig yn cael ei gasglu fel mater o drefn, ac mewn rhai achosion mae'n anghyflawn neu nid yw ar gael.
- Ceir anghydraddoldeb o ran mynediad at asesiad ASD. Mewn rhai ardaloedd efallai ni fydd pobl yn gallu cael mynediad at asesiad diagnostig os nad oes ganddynt anableded dysgu neu broblem iechyd meddwl sy'n cyd-fodoli.
- Ceir anghydraddoldeb o ran darpariaeth, sy'n gysylltiedig â'r cymysgedd sgiliau sydd ar gael sy'n amrywio ar draws byrddau iechyd - â gwasanaethau diagnostig yn cael eu darparu gan wahanol grwpiau proffesiynol.
- Mae rhestrau aros yn amrywio ar draws byrddau iechyd, ac yn ymddangos i fod yn cynyddu.
- Ceir diffyg canllawiau (ac felly diffyg cysondeb) mewn perthynas â phwy ddylai ymgymryd â'r asesiad diagnostig, a ph'un a ddylai fod mewn gofal cychwynnol neu eilaidd, mewn un gwasanaeth arbenigol neu mewn timau lleol heb fod yn arbenigol. Gall amrywiaeth o fodolau gwasanaeth fel hyn arwain at amrywiadau amhriodol o ran ymarfer a chostau gwasanaeth.
- Mae'r hyfforddiant yr ymgymeryd ag ef wedi diwallu rhai o anghenion gweithwyr proffesiynol ond mae angen hyfforddiant pellach ar amrywiaeth o staff ar lefel israddedig ac ôl-raddedig.
- Er bod llawer o enghreifftiau da, nid yw darpariaeth gwybodaeth ysgrifenedig dda ar gael yn eang ledled Cymru.
- Mae bylchau sylweddol yn parhau mewn cymorth parhaus ar gyfer oedolion ag ASD ar ôl diagnosis.
- Yn aml mae strwythurau adrodd a llywodraethu ar gyfer gwaith ASD mewn Byrddau Iechyd yn aneglur.
- Mewn rhai ardaloedd, ceir diffyg ymrwymiad strategol ar lefel bwrdd iechyd. Lle mae datblygiad gwasanaeth wedi digwydd, efallai ni fydd yn gynaliadwy oherwydd ei fod yn aml wedi dibynnu ar gyllid tymor byr Llywodraeth Cymru ac wedi cael ei arwain gan glinigwyr â diddordeb ac ymrwymiad.

Ymddengys bod nifer o heriau sylweddol wrth gyflawni gweithio aml-asiantaeth da, yn enwedig wrth geisio cefnogi pontio effeithiol o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion.

Adborth Rhanddeiliaid

Yn ystod 2015 roedd y Swyddog Arweiniol Cenedlaethol ar gyfer ASD wedi ymgymryd â chyfres o arolygon ar-lein ac ymgysylltu uniongyrchol â phobl ag awtistiaeth a'u rhieni a'u gofalwyr. Roedd un o'r arolygon ar-lein ar gyfer

oedolion ag ASD, yn gofyn i unigolion am y cymorth maent yn ei dderbyn a'u hanghenion ehangach o ran cymorth. Roedd 130 o ymatebwyr i'r arolwg hwn ond ni chwblhaodd pob ymatebydd bob cwestiwn. Roedd data a gasglwyd trwy'r prosiectau cymorth a monitro cymunedol yn ystod 2014 hefyd yn darparu gwybodaeth am anghenion unigolyn o ran cymorth, sydd wedi cyfrannu at y wybodaeth am ddarpariaeth gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru.

Nododd yr ymgynghoriad fylchau mewn darpariaeth ac mae'r problemau a wynebir yn weddol debyg i blant ac oedolion, a cheir patrwm tebyg o anghenion heb eu diwallu a adlewyrchir ar draws yr holl weithgareddau yr ymgymerir â hwy.

Tynnwyd sylw at bryderon mewn perthynas â'r broses asesu a rhoi diagnosis (plant) mewn nifer o ardaloedd, â llawer o deuluoedd yn profi anawsterau wrth gael mynediad at asesiad diagnostig. Ymddengys mai'r prif faterion sy'n effeithio ar deuluoedd yw:

- Amseroedd aros hir
- Diffyg gwybodaeth cyn, yn ystod ac ar ôl cwblhau'r asesiad diagnostig
- Dim darpariaeth cyngor a chymorth, neu ychydig bach yn unig, ar adeg y diagnosis, ac yn syth wedyn

Mae adborth a gasglwyd o ffynonellau anffurfiol eraill hefyd yn adlewyrchu ei bod yn debygol bod y sefyllfa hon yn debyg i oedolion sy'n ceisio gwasanaethau cymorth, er ni helaethwyd ar hyn yn yr ymgynghoriad hwn.

Mewn perthynas â darpariaeth a chymorth parhaus, yr ardaloedd o angen heb ei ddiwallu yr adroddir arnynt yn fwyaf aml ar draws plant ac oedolion yw:

- Cymorth i ddelio â materion emosiynol / ymddygiadol
- Cymorth i ddelio â materion sy'n ymwneud yn benodol ag ASD a sgiliau bywyd
- Cyfleoedd ar gyfer cymdeithasu a hamdden yn eu cymuned eu hunain

Hefyd adroddwyd yn aml bod y diffyg cymorth ar gyfer cyflogaeth yn angen heb ei ddiwallu ar gyfer oedolion.

Asesiad a Dadansoddiad o'r sefyllfa sydd ohoni

Ar gyfer llawer o unigolion mae manteision bod yn gallu cael mynediad at asesiad diagnostig amserol ac ansawdd uchel yn gallu bod yn sylweddol. Gall asesiad ystyrlon;

- Galluogi'r unigolyn i ddeall am ei gyflwr, ei gryfderau a pham y gallai rhai pethau fod yn anodd iddo.
- Cefnogi'r unigolyn i gael mynediad at gymorth priodol wrth symud ymlaen.

- Helpu'r bobl o amgylch yr unigolyn fel y teulu, ffrindiau neu gydweithwyr i ddeall mwy am yr unigolyn a sut fyddai'r ffordd orau o'i gefnogi.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd am ddarpariaeth gwasanaeth bresennol, profiad proffesiynol ac adborth rhanddeiliaid. Mae pum thema glir wedi dod i'r amlwg y mae angen eu harchwilio ymhellach a'u gweithredu i sicrhau gwelliant cynaliadwy. Y pum thema a nodwyd yw:

- Cydraddoldeb o ran mynediad a darpariaeth gwasanaeth
- Cymorth ar ôl diagnosis.
- Anghenion hyfforddiant a datblygiad
- Cydnabod persbectif iechyd meddwl a niwroddatblygiadol ehangach
- Strategaeth a llywodraethu ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth

Cydraddoldeb o ran Mynediad a Darpariaeth Gwasanaeth

Mae'r dystiolaeth yn dangos anghydraddoldeb o ran mynediad at asesiadau diagnostig ASD ac amrywiadau sylweddol mewn darpariaeth gwasanaethau ar draws byrddau iechyd a dylid mynd i'r afael â hyn. Roedd hyn yn cynnwys gwahaniaethau sylweddol mewn amseroedd aros diagnostig rhwng ardaloedd gwahanol fyrddau iechyd. Er bod y Rhwydwaith Diagnostig i Oedolion wedi dylanwadu ar gynllunio ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy mewn rhai ardaloedd, nid yw hwn yn batrwm cyson ac mewn rhai ardaloedd efallai bod gwasanaethau wedi lleihau.

Yng ngoleuni'r buddsoddiad mewn gwasanaethau diagnostig niwroddatblygiadol sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, ceir angen cyfatebol i ddatblygu gwasanaethau diagnostig cynaliadwy i oedolion oherwydd bod awtistiaeth yn gyflwr gydol oes. Dylai unrhyw ddatblygiad gwasanaeth newydd sicrhau bod model gwasanaeth a chymysgedd sgiliau priodol ym mhob ardal. Hefyd mae angen asesu a yw pob bwrdd iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau NICE a darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer ymgynghori amlddisgyblaethol â chyfoedion. Hefyd gellir cael mwy o ddarpariaeth ar gyfer gwaith diagnostig wedi'i dargedu ar gyfer rhai unigolion â chyflyrau niwroddatblygiadol eraill y mae'n hysbys bod ganddynt lefelau uchel o awtistiaeth wedi'u rhagamcanu.

Cymorth ar ôl Asesiad

Mae llwybr diagnostig y Rhwydwaith Diagnostig ASD i Oedolion yn gosod safonau sy'n cynnwys cymorth ôl diagnostig personol ar unwaith gan gynnwys agweddau ar addysg, cwnsela a chyfeirio. Bu amrywiaeth eang yn darpariaeth yr agwedd hon ar y llwybr, â rhai awdurdodau'n cynnwys cwtselwyr pwrpasol, ac mewn ardaloedd eraill mae cymorth ôl diagnosis yn fach iawn.

Yn aml mae unigolion ag awtistiaeth angen gwahanol fathau o gymorth yn unol â'u hanghenion, a allai amrywio o gymorth ar gyfer anghenion sy'n deillio'n uniongyrchol o gael ASD, neu gymorth i fynd i'r afael â nifer o feysydd o angen heb ei ddiwallu, fel cymorth â chyflogaeth, bywyd beunyddiol, perthnasau ac weithiau'n deillio o gysylltiad â'r system cyfiawnder droseddol. Efallai y bydd anghenion y grŵp hwn hefyd yn ymestyn i gymorth ar gyfer problemau ymddygiad

neu iechyd meddwl cydfodol. Mae CGS ASD wedi cefnogi datblygiad canllawiau ysgrifenedig – *Autism: A Guide for Individuals Following Diagnosis*, sy'n cael ei ddefnyddio gan rai ardaloedd i ddarparu cyngor a gwybodaeth.

Mae'r CGS ASD wedi'i ddiweddarau yn cydnabod anghenion heb eu diwallu rhai oedolion ag awtistiaeth ac mae'n glir bod angen gwneud mwy i ddarparu ymyrraeth ataliol lefel isel ar gyfer rhai pobl ag ASD, i ddad-dwysáu problemau ac osgoi'r angen am ymyrraeth ddwysach.

Hyfforddiant a Datblygiad

Hyd yma mae gweithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol ASD wedi cynnwys mentrau i wella ymwybyddiaeth o ASD ac adnabyddiaeth ohono. Mae effaith yr hyfforddiant hwn wedi bod yn amrywiol ar draws Cymru, ond mae gweithgareddau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth wedi'u targedu llawer yn fwy'n cael eu datblygu fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Interim ASD. Mae pecyn hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr anabledd dysgu ac iechyd meddwl eilaidd wedi cael ei ddatblygu a'i ddarparu mewn nifer o ardaloedd ac mae pecyn hyfforddiant pellach yn cael ei ddatblygu ar gyfer gweithwyr gofal iechyd cychwynnol proffesiynol.

Mae Rhwydwaith Diagnostig ASD i Oedolion wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth ddarparu hyfforddiant i glinigwyr mewn dulliau diagnostig sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ardal pob bwrdd iechyd. Yn anffodus mae'r cyfle i glinigwyr roi'r sgiliau newydd hyn ar waith wedi bod yn gyfyngedig ac mae angen dull newydd â strwythur o weithredu i ganolbwyntio ar anghenion hyfforddiant clinigwyr lle ceir bylchau a nodwyd mewn gwybodaeth a sgiliau.

Fel rhan o well dull strategol o ymdrin ag awtistiaeth, dylai byrddau iechyd a'u partneriaid ystyried anghenion y gweithlu sydd eisoes yn bodoli o ran hyfforddiant a datblygiad, a fyddai'n cynnwys gwasanaethau asesu a chymorth ar ôl diagnosis.

Cydnabod Persbectif Iechyd Meddwl a Niwroddatblygiadol Ehangach

Yn aml bydd gan unigolion ag awtistiaeth fwy nag un anhwylder datblygiadol. Mae tystiolaeth yn arddangos y bydd gan o leiaf 50% o bobl ag ASD anabledd dysgu o ddifrifoldeb amrywiol a bydd rhwng 30% a 50% o bobl ag ASD yn dangos nodweddion ADHD. Mae achos i'w wneud dros ystyried anhwylderau niwroddatblygiadol ehangach wrth ddatblygu gwasanaeth awtistiaeth i oedolion.

Ceir cymhlethdod pellach oherwydd bydd rhai pobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol yn agored iawn i broblemau iechyd meddwl ychwanegol. Mae rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc wedi cydnabod y cymhlethdodau hyn i blant a phobl ifanc a risgiau parhaus diagnosisu sydd wedi'u methu neu'n anghywir, gan gynyddu risgiau ac anabledd, ymyrraeth amhriodol neu aflwyddiannus â nam ar eu heffeithiolrwydd. Felly mae angen cyfatebol i fynd i'r afael ag anghenion ychwanegol cymhleth ymhlith oedolion.

Strategaeth a Llywodraethu

Mae'r adolygiad o ddarpariaeth ddiagnostig bresennol i oedolion, a phrofiad aelodau'r Rhwydwaith Oedolion, yn arddangos bod diffyg eglurder mewn llawer o ardaloedd ynglŷn â chyfrifoldebau bwrdd iechyd neu amlasiantaethol

ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth. Darganfu'r adolygiad ei bod yn anodd nodi tystiolaeth o arweinyddiaeth gyson a gweithredol gan y bwrdd ar gyfer awtistiaeth neu faterion niwroddatblygiadol ehangach o fewn byrddau iechyd. Hefyd darganfu nad oedd llawer o ymgysylltu ehangach rhwng asiantaethau mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer pobl ag ASD. Datgelodd dadansoddiad o aelodaeth grwpiau llywio ASD lleol a sefydlwyd fel rhan o'r CGS ASD fod gan lai na hanner aelodau o wasanaethau iechyd meddwl oedolion neu anabledau dysgu. Nid oedd llawer o dystiolaeth o weithio ar y cyd neu gyfrifoldeb ar y cyd y cytunwyd arno rhwng asiantaethau ac mewn rhai achosion arweiniodd hyn at ddyblygu gwasanaethau.

Mae angen cyfeiriad strategol clir, a gwelliannau o ran llywodraethu, i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyfrifoldeb am wasanaethau awtistiaeth o fewn byrddau iechyd a rhwng asiantaethau, yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yr adborth a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad rhanddeiliaid yn adlewyrchu'r pryderon hyn hefyd, lle adroddodd unigolion ar anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau, a oedd yn arbennig o wir ar gyfer cymorth pontio.

Argymhellion

Mae datblygiad y Cynllun Gweithredu Strategol ASD wedi'i ddiweddarau wedi cynnwys ymrwymiad i ddatblygu gwasanaeth awtistiaeth integredig ar gyfer Cymru. Croesewir y buddsoddiad newydd hwn ac mae aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen yn credu y gallai buddsoddiad o'r fath ddarparu cyfle i leihau'r hyd o amser bydd unigolion a'u teuluoedd yn aros am asesiad diagnostig a gwella deilliannau i unigolion trwy fynediad at gymorth priodol.

Byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen yn cymeradwyo model gwasanaeth sy'n cwmpasu'r oes gyfan ac yn cynnwys gwasanaethau diagnostig i oedolion, darpariaeth cymorth ar ôl diagnosis a darpariaeth cymorth ac ymyrraeth briodol ar yr adeg gywir wedi'u darparu gan weithlu medrus a chymwys. Bydd yn hanfodol sicrhau bod cynllunio amlasiantaethol effeithiol ar lefel lleol/rhanbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau newydd yn cael eu datblygu a'u gweithredu'n unol ag ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hefyd yn bwysig cael gwerthuso priodol a bod system fonitro gadarn yn cael ei rhoi ar waith.

Wrth i wasanaethau gael eu datblygu ar gyfer oedolion ag awtistiaeth bydd yn hanfodol ystyried y dystiolaeth y mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD wedi'i chyflwyno i sicrhau bod gwasanaethau newydd yn cael eu datblygu sy'n adeiladu ar ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli, yn mynd i'r afael â bylchau presennol mewn gwasanaethau a chefnogi datblygiad gweithlu.

Dylid ystyried yr argymhellion canlynol wrth ddatblygu a darparu gwasanaeth awtistiaeth integredig ar gyfer Cymru.

Cynllunio Strategol, Arweinyddiaeth a Llywodraethu a Chydraddoldeb Mynediad

- Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn nodi y bydd gofyn i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd newydd eu ffurfio gymryd rôl allweddol

wrth oruchwyllo datblygiad strategol y gwasanaeth integredig. Credir y bydd hyn yn darparu cyfle i ddatblygu dull amlasiantaethol o ymdrin â gwasanaethau awtistiaeth a sicrhau ymrwymiad uwch oddi wrth asiantaethau allweddol.

- Yn ychwanegol at rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i sut i godi proffil darpariaeth gwasanaeth ar gyfer pobl ag ASD ar lefel bwrdd o fewn Byrddau Iechyd. Un posibilrwydd fyddai gofyn i fyrddau iechyd benodi Aelod Gweithredol neu Annibynnol yn Hyrwyddwr ASD.
- Oherwydd bod awtistiaeth yn gyflwr gydol oes, mae'n bwysig bod cynllunio rhanbarthol amlasiantaethol yn cydnabod yr angen i gynllunio a datblygu cymorth ar gyfer unigolion ar draws y rhychwant oes.
- Dylid hyrwyddo llwybr ar gyfer oedolion y mae'r Rhwydwaith Oedolion wedi'i ddatblygu, sy'n cydymffurfio â gofynion NICE, a dylid datblygu pecyn cymorth ategol, sy'n adlewyrchu egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus.
- Dylid cytuno ar y llwybr asesiad sengl ar draws byrddau iechyd sy'n darparu gwasanaethau diagnostig ar gyfer pob atgyfeiriad, gan gynnwys unigolion â diagnosis iechyd meddwl neu anabledd dysgu cyd-glefydol neu unigolion heb ddiagnosis o'r fath.
- I adlewyrchu ymarfer gorau NICE, dylid sefydlu grŵp llywio amlasiantaeth, sy'n cwmpasu'r rhychwant oes cyfan, i oruchwyllo a chynorthwyo â gweithrediad y gwasanaeth integredig ar gyfer ardal ôl troed pob bwrdd iechyd.
- Mae'n bwysig bod rhanbarthau lleol yn sicrhau eu bod yn datblygu mecanweithiau i alluogi pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr i fynd at i gyfrannu at ddatblygiad mentrau a modelau gwasanaeth newydd fel partneriaid ystyrion.
- Mae'n rhaid i'r gwasanaeth awtistiaeth integredig newydd alinio â gwaith y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc ar gyfer plant a phobl ifanc, i sicrhau bod dull rhychwant oes o ymdrin â darpariaeth gwasanaeth.

Hyfforddiant a Datblygiad

- Dylid cael dull parhaus, cynaliadwy o ymdrin â hyfforddiant ar gyfer staff mewn gwasanaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl, cymorth ASD arbenigol ac awdurdodau lleol, gan ystyried hygyrchedd a throsiant staff.
- Dylai hyfforddiant gynnwys adnabod symptomau craidd ASD, asesiad diagnostig ac addasu ymyraethau ar gyfer pobl ag ASD ar draws yr ystod oed.
- Dylai hyfforddiant diagnostig fod ar sylfaen eang a pheidio â bod yn gyfyngedig i un model diagnostig.
- Dylai rhaglenni hyfforddiant israddedig mewn gwasanaethau iechyd gynnwys awtistiaeth mewn hyfforddiant craidd a dylid darparu cymorth i ddatblygu dulliau priodol o ymdrin â hyfforddiant.

Cymorth Cyn ac Ar Ôl Diagnosis

- Dylid darparu canllawiau a chymorth i alluogi oedolion i ddeall proses a goblygiadau asesiad ASD, sy'n cydymffurfio â chanllawiau NICE.
- Mae'n rhaid i unigolion gael mynediad at gymorth cyn ac ar ôl diagnosis sydd o ansawdd da ac yn bodloni canllawiau NICE
- Gallai amrywiaeth o ymarferwyr sydd eisoes yn bodoli, o amrywiaeth o grwpiau proffesiynol, ddarparu cymorth ychwanegol cyn ac ar ôl diagnosis ar gyfer oedolion sy'n cychwyn ar y llwybr asesiad, dylent dderbyn hyfforddiant ac adnoddau i ymgymryd â'r gwaith hwn.
- Mae angen mwy o gydweithredu a gweithio integredig ar draws asiantaethau statudol ac asiantaethau'r trydydd sector i sicrhau bod anghenion holistaidd unigolyn a'i ofalwr/ofalwyr yn cael sylw.

Gwella Perfformiad a Monitro Perfformiad

- Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ar hyn o bryd i gasglu gwybodaeth am yr hyd o amser bydd unigolion yn aros am asesiad diagnostig. Argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau clir i Fyrddau lechyd mewn perthynas â sut dylent gofnodi a monitro amseroedd aros o'r fath. Dylid darparu data o'r fath fel mater o drefn i Lywodraeth Cymru trwy fecanweithiau monitro perfformiad/gwybodeg.
- Yn ogystal ag ystyried am ba mor hir mae unigolyn yn aros am asesiad diagnostig, mae'n hanfodol ystyried pa ddeilliannau sy'n cael eu cyflawni i'r unigolyn a'i brofiad o gysylltiad â gwasanaethau. Argymhellir rhoi ystyriaeth bellach i ddatblygu fframwaith mesur deilliannau sy'n canolbwyntio ar yr unigol sy'n canolbwyntio ar "yr hyn sy'n bwysig" i'r unigolyn.

Rhannu Ymarfer Da

- Mae'n bwysig sicrhau bod cyfleoedd parhaus i rannu ymarfer da ar draws Cymru ac mae'r grŵp yn argymhell datblygu Cymuned Ymarfer sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru.
- Ceir llawer o enghreifftiau o adnoddau a mentrau ardderchog sydd wedi'u datblygu mewn nifer o wasanaethau ar draws Cymru. Er mwyn cefnogi lledaeniad gwaith o'r fath, argymhellir datblygu crynodeb o adnoddau ac ymarfer da a'i ledaenu'n eang.

Casgliad

Cafodd anghenion oedolion ag awtistiaeth eu cydnabod yn y Cynllun Gweithredu Strategol ASD cyntaf. Mae gweithredu wedi cynnwys cymorth ar gyfer y Rhwydwaith Diagnostig ASD i Oedolion a chyflwyno swyddi Cymorth Monitro Cymunedol i ddarparu cymorth lefel isel i oedolion. Mae tystiolaeth ddiweddar o'r gwerthusiad annibynnol o Gynllun Gweithredu Strategol ASD

2008 wedi dangos er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i gyflawni, mae angen gwneud mwy o waith a bellach mae angen dull cynaliadwy o weithredu i sicrhau'r gwelliannau parhaol.

Ffactor allweddol ar gyfer llwyddiant yw sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau ASD ar draws yr ystod oedran yn uchel ar yr agenda strategol mewn byrddau iechyd a bod cyfrifoldeb yn cael ei rannu ar draws asiantaethau. Ni ellir cyflawni hyn heb fuddsoddiad mewn seilwaith gwasanaethau awtistiaeth mewn byrddau iechyd a'u partneriaeth, a fydd yn cynnwys cymorth i adeiladu gallu a sgiliau yn y gweithlu.

Cyfeiriadau

Manikiza J, Sundari (heb ddyddiad) Autism: A Guide for Adults Following Diagnosis. ASD info Cymru.

Llywodraeth Cymru Outcome Evaluation of the Autistic Spectrum Disorder Strategic Action Plan Final Report

ASD Info Cymru (2015) Consultation Summary: Mental Health and Learning Disability Practitioners.

Atodiad un

Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrum Awtistig Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD

CYLCH GORCHWYL

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD (GGGD ASD) i ddarparu cyngor i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ddiagnosis awtistiaeth plant ac oedolion. Fel mater o flaenoriaeth, bydd y grŵp yn ystyried pryderon y mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u codi mewn perthynas ag amseroedd aros am ddiagnosis ASD ar gyfer plant a darparu cyngor arbenigol ar ddiagnosis a chymorth cyn ac ar ôl diagnosis ar gyfer plant ac oedolion, i ddarparu gwybodaeth ar gyfer diweddarau'r Cynllun Gweithredu Strategol ASD.
2. Ym mis Mai 2015 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyllid newydd i gefnogi Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc. Mae £2m wedi cael ei ddyrannu ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol gan gynnwys ADHD ac ASD. I osgoi dyblygiad o fis Tachwedd 2015, mae aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynrychioli gwasanaeth plant wedi cytuno i drosglwyddo eu haelodaeth i grŵp gweithredu niwroddatblygiadol rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.
3. Mae holl aelodau'r Rhwydwaith Cwnsela Cyn/Ôl Diagnosis ASD Oedolion/Grŵp Arbenigol Oedolion wedi cael gwahoddiad i ddod yn aelodau llawn y grŵp gorchwyl a gorffen o fis Tachwedd 2015.
4. Bydd cysylltiadau rhwng y ddau grŵp diagnostig yn cael eu cynnal i gyfnewid gwybodaeth a sicrhau bod themâu trawsbynciol fel pontio'n cael eu trafod. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu'r ddau grŵp a bydd aelodau perthnasol hefyd yn mynychu'r ddau grŵp.
5. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis ASD diwygiedig yn darparu cyngor ac argymhellion mewn perthynas â:
 - Lleihau amseroedd aros diagnostig ar gyfer oedolion.
 - Sefydlu fframwaith cyson ar gyfer diagnosis ASD Oedolion sy'n cydymffurfio â chanllawiau NICE ar gyfer atgyfeirio, asesu a rhoi diagnosis i oedolion ag ASD.
 - Atgyfnerthu cyflawniadau'r Rhwydwaith Cwnsela Cyn/Ôl Diagnosis i Oedolion.
 - Nodi a rhannu ymarfer da mewn asesu a gwasanaethau cymorth cyn ac ar ôl diagnosis.
 - Sicrhau bod cysylltiadau â ffrwd gwaith niwroddatblygiadol rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cael eu sefydlu a'u cynnal.

6. Wrth ddarparu unrhyw gyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â pharagraff 5 uchod, bydd cyngor y GGGD, lle bo angen, yn cynnwys eu hasesiad o unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer sefydliadau wrth gydymffurfio â'u cyngor.
7. Efallai y bydd y GGGD, lle mae'n ystyried y bydd yn hwyluso eu gwaith, yn gwahodd pobl nad ydynt yn aelodau i fynychu ar gyfer rhan o gyfarfod neu unrhyw gyfarfod cyfan a, gyda chytundeb y cadeirydd, cyfrannu at y trafodaethau yn y cyfarfodydd.
8. Ac eithrio lle mae Llywodraeth Cymru neu'r GGGD wedi pennu fel arall, gall aelodau ymgynghori â phobl nad ydynt yn aelodau ynglŷn â materion a gyfeiriwyd i'r GGGD yn unol â pharagraff 1 uchod, lle maent yn credu y bydd hyn yn hwyluso eu gwaith.
9. Ac eithrio lle mae Llywodraeth Cymru neu'r GGGD wedi pennu fel arall, gall y grŵp ymgynghori ag unigolion ag awtistiaeth a'u rhieni a gofalwyr ynglŷn â materion a gyfeiriwyd i'r GGGD yn unol â pharagraff 1 uchod, lle maent yn credu y bydd hyn yn hwyluso eu gwaith.
10. Bydd Llywodraeth Cymru yn pennu Cylch Gorchwyl y GGGD ASD. Bydd y rhain yn cael eu trafod a'u cytuno yn y cyfarfod cyntaf ac fel bo angen mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

GWEINYDDIAETH

11. Bydd Llywodraeth Cymru yn penodi cadeirydd ac aelodau'r GGGC ASD.
12. Bydd y GGGD yn cynnal cyfarfodydd pan fydd y cadeirydd yn ystyried bod angen, ond bydd yn cyfarfod o leiaf tair gwaith ac yn cwblhau ei waith erbyn mis Mawrth 2016.
13. Fel arfer bydd gwasanaethau ysgrifenyddiaeth gyffredinol ar gyfer y GGGD yn cael eu darparu gan swyddogion yr Is-adran Cyflawni Polisiâu ar gyfer Plant ac Oedolion, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru.
14. Bydd Llywodraeth Cymru yn pennu'r dyddiad pan fydd y GGGD ASD yn cael ei ddi-ddymu.

Atodiad dau

Aelodaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnosis Anhwylder ar y Sbectrw m Awtistig

Enw	Sefydliad	
Chris O'Connor (Cadeirydd)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	2014/15
Carolyn Samuel	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	2014/15
Alka Ahuja	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	2014/15
Anne Marie McKigney	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	2014/15
Julie Mullis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2014/15
Jenny Hunt	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2014/15
Tansy Mayfield	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2014/16
Darrell Clarke	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	2014/15
Zed Sibanda	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	2014/15
Juan Delport	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	2014/16
Catrin Simpson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	2014/15
Rebecca James	Bwrdd Iechyd Addysg Powys	2014/16
Johanna Manikiza	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	2014/15
Louise Albert	Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru	2014/16
Catherine Jones	Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru	2014/16
Sue Leekam	Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru	2014/16
Tracy Jelfs	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	2014/16
Christine Griffiths	Pwyllgor Cyngorol Therapiau Cymru	2014/16
Heather Payne	AIGCP, Llywodraeth Cymru	2014/15
David Williams	AIGCP, Llywodraeth Cymru	2014/16
Penny Hall	AIGCP, Llywodraeth Cymru	2014/16
Julie Annetts	AIGCP, Llywodraeth Cymru	2014/16
Wendy Thomas	Cyngor Sir Gâr	2014/16

Jacquelyn Elias	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru	2014/16
Sarah Dudley	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	2015/16
Alan Downe	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	2015/16
Christine Fretwell	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	2015/16
Phil Dore	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	2015/16
Helen Matthews	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	2015/16
Nicola Jones	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	2015/16
Sundari Umapathay	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	2015/16

Ysgrifenyddiaeth: Alyson Collins a Susan Ellis, yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant Llywodraeth Cymru